Clwb Rygbi Caernarfon
Caernarfon Rugby Club

Y Morfa, Lôn Parc, Caernarfon, LL55 2URF
01286-674513

Polisi Amddiffyn Plant

Cymeradwywyd gan Bwyllgor y Clwb

04/07/2007

Swyddog Amddiffyn Plant y Clwb:
Robin Williams:01286-673009 / 07900-658865 / pennaeth@llanrug.gwynedd.sch.uk

Llinell Gymorth Amddiffyn Plant - Undeb Rygbi Cymru **029 2082 2**
07738 311 366.

Llinell Gymorth NSPCC - **0808 100 2524**

1-NÔD

Nôd y polisi hwn yw:

1. i amddiffyn plant tra bod nhw yng ngofal y Clwb.

2. i gynnig arweiniad a sicrwydd i hyfforddwyr a gwirfoddolwyr eraill yn eu ymwneud â phlant a phobl ifanc.

3. i ennyn hyder ac i gynnig tawelwch meddwl i rieni/gwarchodwyr y plant.

4. i gynnig arweiniad ehangach i hyfforddwyr a gwirfoddolwyr ar faterion amddiffyn plant

2-DATGANIAD O FWRIAD

- Mae Clwb Rygbi Caernarfon wedi llunio'r polisi yma mewn ymateb i Bolisi Amddiffyn Plant Undeb Rygbi Cymru. Gellid darllen yr polis yn llawn ar http://wru.co.uk/downloads/WRU_Child_Protection_Policy.pdf

- Mae Clwb Rygbi Caernarfon yn ymrwymo i geisio sicrhau nad yw unrhyw blentyn, tra yng ngofal y Clwb, yn derbyn unrhyw sylw amhriodol gan unrhywun sy'n gysylltiedig â'r Clwb.

- I'r perwyl hyn bydd yn Clwb yn cymryd pob cam ymarferol bosib i sicrhau nad oes unrhywun sydd â hanes o gamdrin plant yn dod i gysylltiad â phlant.

- Bydd pob hyfforddwr yr Adran Iau yn cael Tystysgrif Datgelu Uwch (Enhanced Disclosure Certificate) gan y Biwro Cofnodion Troseddol (Criminal Records Beaureaux)

- Yn ogystal â sicrhau nad oes neb ag hanes camdrin plant yn dod i gysylltiad â phlant, mae'r Clwb yn derbyn fod cyfrifoldeb rhag-weithiol (pro-active) ar ran y Clwb i warchod buddiannau plant dan eu gofal gan sicrhau nad oes unrhyw sylw amhriodol yn cael ei dalu i blentyn gan oedolyn.

- Ni fydd y Clwb yn goddef unrhyw weithredu, ymddygiad na ieithwedd fydd yn difrïo neu'n achosi anesmwythdod i blant neu pobl ifanc gan unrhyw hyfforddwr, gwirfoddolwr neu unrhyw berson arall.

- Ni ddylai unrhyw blentyn cael ei adael ar ei b/phen ei hyn gydag oedolyn oni bai fod y person yna wedi cael Tystysgrif Datgelu Uwch (Enhanced Disclosure Certificate). Hyd yn oed wedyn dylai'r Clwb cymryd pob cam rhesymol i sicrhau nad yw plentyn yn cael ei adael ar eib/phen ei hyn gydag oedolyn.

- Os yw unrhyw hyfforddwr, gwirfoddolwr, plentyn, person ifanc, rhiant, neu unrhywun arall gydag amheuon fod sylw amrhiodol neu unrhywbeth arall

yn peri pryder wedi digwydd, dylid cysylltu â Swyddog Amddiffyn Plant y Clwb yn syth.

- Mae yna gyfrifoldeb ar bob hyfforddwr, gwirfoddolwr neu aelod o'r Clwb i adrodd i'r Swyddog Amddiffyn Plant unrhyw bryderon ynghylch materion amddiffyn plant – fel bo modd eu cyfeirio i'r awdurdodau priodol.

3-GWEITHDREFNAU

3.1 Aros dros nos

Os yw tim yn aros dros nos, e.e mewn gwesty, hostel, maes pebyll, bydd pob hyfforddwr sy'n aros yn yr un lleoliad gyda Tystysgrif Datgelu Uwch.

Ni fydd bechgyn a merched yn rhannu stafelleodd.

Os yn aros dros nos, ni fydd hyfforddwyr yn cysgu yn yr un ystafell a phlentyn nac yn defnyddio'r un cyfleusterau ymolchi. Os mae dim ond un ystafell ymolchi sydd, yna bydd hyfforddwyr a plant yn ei ddefnyddio ar adegau gwahanol.

3.2 Asesiad Risg

Mae Rygbi yn gamp corfforol ac er gwaethaf pob ymdrech rhesymol gall plant gael eu hanafu.

Er mwyn lleihau'r risg o ddamwain, mae'r Clwb yn cydymffurfio'n llawn a rheolau URC yn ymwneud â rygbi plant a phobl ifanc.

Gellid darllen y rhain yn llawn ar wefan URC sef http://wru.co.uk/downloads/Rugby-Pathway-2004-2005.pdf

3.3 Cofrestru / Caniatad Rhieni / Gwarchodwr

Bydd angen i bob plentyn gofrestru gyda'r Clwb yn unol a chanllawiau Undeb Rygbi Cymru. Bydd y ffurflen gyda lle i rieni/gwarchodwyr rhoi caniatad ar gyfer cymorth cyntaf brys (gweler cymorth cyntaf) a tynnu lluniau (gweler tynnu lluniau).

Byddwn hefyd yn gofyn am unrhyw gyflwr meddygol perthnasol a rhifau ffôn er mwyn cysylltu â rhieni/gwarchodwyr.

3.4 Cymorth cyntaf

Mae Rygbi yn gamp corfforol ac er gwaethaf pob ymdrech rhesymol gall plant gael eu hanafu.

Mae gan nifer o'r hyfforddwyr dystysgrif cymorth cyntaf.

Yn ddelfrydol fe roddir cymorth cyntaf gan berson o'r un rhyw a'r un sydd wedi anafu, ond yn ymarferol ni allwn warantu hyn bob tro. Bydd dau berson yn bresenol bob tro pan roddir cymorth cyntaf.

Yn anorfod bydd unrhyw gymorth cyntaf yn golygu cyffwrdd, ac yn ddibynnol ar natur yr anafiadau, gall olygu tynnu/diosg/llacio dillad a chyffwrdd mewn mannau personol.

Ym mhob achos fe roddir cymorth cyntaf mewn modd sensitif gan ddiogelu urddas a phreifatrwydd y claf.

Yn ddibynnol ar natur yr anafiadau bydd y plentyn yn cael ei anfon gartref, yn cael ei hebrwng i'r ysbyty (yn y ddau achos yma, yn unol â'r polisi teithio isod) neu os bydd ambiwlans yn cael ei alw – yn ddelfrydol bydd rhywun o'r un rhyw a'r plentyn yn cael ei ddirprywo i fynd gyda'r plentyn yn yr ambiwlans.

Byddwn yn cysllltu â rhiant/gwarchodwr y plentyn cyn gynted â phosib.

3.5 Gweithredu'n Agored

Mae Clwb Rygbi Caernarfon yn cwbl agored yn ei weithgareddau yn ymwneud â phlant. Nid oes unrhyw rheswm arferol i oedolyn a phlentyn orfod encilio i stafell neu lecyn tawel ar ben eu hunain. Drwy weithredu yn yr agored o flaen pawb mae llai o siawns i blentyn cael sylw amhriodol ac i hyfforddwr gael honiadau wedi eu gwneud ar gam.

3.6 Gwirfoddolwyr

Mae Clwb Rygbi Caernarfon yn agored ac yn croesawu rhieni, gwarchodwyr, ffrindiau a theuluoedd i'r Clwb i wylio gemau ac ymarferion. Rydym yn croesawu pob cynnig o gymorth ymarferol. Cyn manteisio ar unrhyw gynnig o gymorth, byddwn yn dilyn y gweithdrefnau sydd wedi gosod allan isod ar gyfer Recriwtio. Rydym yn gobeithio fod pawb yn deallt fod hyn yn cael ei wneud er lles y plant nid oherwydd unrhyw amheuaeth am gymhellion y sawl sy'n gwirfoddoli.

Bydd y Clwb yn darparu hyfforddiant amddiffyn plant addas ar gyfer holl hyfforddwyr/gwirfoddolwyr/staff y Clwb.

Bydd y Clwb yn cadw cofnod o'r holl hyfforddwyr/gwirfoddolwyr/staff sydd wedi derbyn y fath hyfforddiant.

3.7 Pobl Eraill

Fe fyddwn yn ceisio sicrhau fod pawb sy'n debygol o ddod i gysylltiad â phlant – neu sy'n ymddangos mewn safle o awdurdod i'r plant, byddwn yn gofyn wrth Stiward y Clwb a gweithwyr y gegin fydd ar ddyletswydd pan fo plant yn ymarfer/chwarae i gael Tystysgrif Datgelu Uwch.

3.8 Recriwtio

Pan fydd y Clwb yn recriwtio neu'n derbyn hyfforddwyr newydd bydd y Clwb yn:

1) Trefnu Tystysgrif Datgelu Uwch

2) Mynnu enw dau ganolwr sydd yn adnabod y person. Bydd y swyddog amddiffyn plant yn cysylltu â'r ddau er mwyn gael sgwrs ffôn er mwyn asesu eu haddasrwydd ar gyfer gweithio gyda plant.

3) Bydd y darpar hyfforddwr yn cael ei arolygu am 3 mis cyn cael ei dderbyn yn hyfforddwr llawn.

4) Gofyn am enw dau ganolwr sydd yn adnabod y person. Bydd y swyddog amddiffyn plant yn cysylltu â'r ddau er mwyn gael sgwrs ffôn er mwyn asesu eu haddasrwydd ar gyfer gweithio gyda plant.

5) Bydd y darpar hyfforddwr yn cael ei arolygu am 3 mis cyn cael ei dderbyn yn hyfforddwr llawn.

3.9 Rhieni

Mae'r Clwb yn croesawu rhieni/gwarchodwyr a theuluoedd i'r Clwb. Ond rydym yn gofyn wrthynt i:

1) Beidio mynd i'r ystafelloedd newid heb wahoddiad yr hyfforddwr/wyr.
2) Beidio ymyrryd yn ystod sesiynau hyfforddi.
3) Cefnogi eu plentyn a'i d/thîm yn ystod gemau – ond heb ddefnyddio iaith anweddus ac i barchu penderfyniadau'r dyfarnwr. Rydym yn gofyn wrth rieni/gwarchodwyr ddilyn côd Undeb Rygbi Cymru http://www.wru.co.uk/downloads/WRU-U19-Discipline-Rules-06-07.pdf

Os oes gan riant/gwarchodwr unrhyw bryderon dylid codi nhw gyda'r hyfforddwr ar ddiwedd y sesiwn ymarfer, unrhyw hyfforddwr arall, neu gyda'r Swyddog Amddiffyn Plant ar unrhyw adeg.

3.10 Stafelloedd Newid

HYFFORDDWYR
Ni ddylai hyfforddwr fod ar ben ei hunain gyda plentyn yn y stafelloedd newid. Os oes rhaid bod yn yr ystafelloed newid oherwydd materion yn ymwneud â disgyblaeth dylid ceisio sicrhau fod ail oedolyn – yn ddelfrydol hyfforddwr arall - yno hefyd.

MERCHED
Bydd stafell newid ar wahan yn cael ei ddarparu ar gyfer merched.

3.11 Swyddog Amddiffyn Plant (SAP)

Bydd un aelod o'r Clwb yn cael ei b/phenodi'n Swyddog Amddiffyn Plant. Bydd gan y person yma Dystysgrif Datgelu Uwch.

Rôl y SAP yw gwarchod buddianau plant â bod yn brif gyswllt ar gyfer adrodd ar unrhyw bryderon yn ymwneud â phlant. Bydd y SAP hefyd yn gwirio dogfennau ar gyfer ceisiadau am Dystysgrif Datganiad Uwch.

Bydd y SAP yn mynychu cyrsiau Amddiffyn Plant URC ac unrhyw hyfforddiant pellach sy'n cael ei ystyried yn addas/angenrheidiol

3.12 Teithio

Cyfrifoldeb y rhiant/gwarchodwr yw danfon pob plentyn i'r Clwb ar gyfer ymarfer a gemau ac wedyn adref o'r Clwb wedi gem neu ymarfer.

Ni fydd y Clwb, nac hyfforddwyr, yn derbyn y cyfrifoldeb o ddanfon plentyn adref ar ol ymarfer.

Serch hynny ni fydd unrhyw blentyn yn cael ei g/adael y tu allan i'r Clwb ar ddiwedd ymarfer. Bydd hyfforddwr yn ceisio cysylltu â rhiant/gwarchodwr er mwyn iddynt ddod i gasglu eu plentyn. Dim ond mewn sefyllfa eithriadol bydd hyfforddwr yn cludo plentyn adref.

Pan yn teithio i gemau oddi cartref gyda car, cyfrifoldeb y rhiant/gwarchodwr yw cludo'r plentyn i ac o'r gem. Yn ymarferol mae llawer o rieni a phlant yn rhannu ceir – mater personol i'r rhieni yw hyn.

Pan fydd y Clwb yn trefnu bws i gludo pawb i gem oddi gartref - rhaid i blant wisgo gwregys diogelwch pan yn teithio os ydyn nhw ar gael yn y bws. Os oes lle mae croeso i rieni deithio ar y bws hefyd.

Nid ddylai hyfforddwyr fynd i'r arfer o godi a chludo plant yn eu ceir. Os yw hyfforddwr yn gorfod cario plentyn mewn car, ni ddylai'r hyfforddwr fod ar ben ei hun gyda'r plentyn yn y car. Os yw hyn yn anorfod dylai'r plentyn eistedd yn y cefn Yn ddelfrydol dylai'r hyfforddwr godi unrhywun o'r Clwb – gan ddychwelyd pawb i'r Clwb ar y diwedd i'w casglu gan eu rhieni/gwarchodwyr yn hytrach na casglu plant o'u tai.

Fe ddylai plant wastad wisgo gwregys diogelwch yn y car.

Dylid sicrhau nad yw plant ifanc yn cael eu gadael mewn tai gwag.

3.13 Tynnu Lluniau

Mae Clwb Rygbi Caernarfon ac Undeb Rygbi Cymru fel eu gilydd yn awyddus i weld lluniau o blant yn mwynhau eu hunain yn chwarae rygbi yn ymddangos yn y wasg neu ar y we.

I'r perwyl hyn rydym yn gofyn wrth bob rhiant/gwarchodwr rhoi eu caniatad i hyn ddigwydd wrth gofrestru ar y dealltwriaeth:

- Fod y plant i gyd wedi eu gwisgo'n briodol (crys a siorts o leiaf)
- Nad oes enwau na chyfeiriadau llawn yn cael eu cyhoeddi.

Os yw rhiant/gwarchodwr yn dymuno tynnu lluniau o'i b/phlentyn yn ymarfer/chwarae – dylid siarad gyda'r hyfforddwr yn y lle cyntaf.

Os oes rhywun yn cael ei g/weld yn tynnu lluniau ar ochr y cae, ac heb fod yn gysylltiedig ag unrhyw blentyn, neu'n anfodlon rhoi esboniad o'i g/weithgareddau, mae'r Clwb yn cadw hawl i ofyn wrth y person yma adael Y Morfa a/neu i alw'r Heddlu.

Pan yn chwarae oddi cartref dylid codi unrhyw bryderon gyda SAP neu unrhyw hyfforddwr o'r Clwb arall.

3.14 Tystysgrif Datgelu.

Bydd y Clwb yn sicrhau fod pob hyfforddwyr a gwirfoddolwr yn cael Tystysgrif Datgeliad Uwch gan y Biwro Cofnodion Troseddol ac fod hwn yn cael ei ddiweddaru pob 3 blynedd.

4-GWEITHREDU

4.1 Os daw unrhyw ddigwyddiad/achos/honiad amheus i sylw unrhywun dylid hysbysu'r Swyddog Amddiffyn Plant (SAP) yn syth. Gellid hefyd defnyddio'r drefn yma i adrodd ar ddigwyddiad/achos/honiad sydd ddim yn ymwneud â'r Clwb.

4.2 Bydd y SAP yn nodi'r ffeithiau ar Taflen Cofnodi 1 (copi ar ddiwedd y polisi yma) ac wedyn, os yn ei ystyried yn briodol, yn ei adrodd i'r Heddlu, Gwasanaethau Cymdeithasol Lleol (GCLl) neu'r NSPCC. Fe fydd y SAP yn adrodd i Cadeirydd y Clwb. Os yw'r Cadeirydd a'r SAP yn credu bod rhaid, yna byddant yn adrodd ar y digwyddiad i Undeb Rygbi Cymru.

4.2 NID GWAITH y SAP yw ymchwilio i ddigwyddiadau/honiadau nac ychwaith holi plant, pobl ifanc neu eraill ynghylch y mater. Ond os yn ei farn rhesymol ef mae'n edrych fel bo digwyddiad/honiad yn haeddu ymchwiliad pellach – bydd yn cysylltu â'r awdurdodau priodol ac fe fydda nhw'n ymchwilio.

4.4 Os yw'r honiad yn ymwneud ag hyfforddwr neu aelod o staff y Clwb, cyflogedig neu wirfoddol, a'r SAP wedi adrodd i'r awdurdodau priodol, gall y person sydd ag honiad yn ei h/erbyn - ar gyfarwyddiadau'r awdurdodau - g/chael ei neilltuo o gyswllt â phlant hyd nes bod yr Heddlu, GCLl neu'r NSPCC wedi gorffen eu hymchwiliadau ac naill ai'n cymryd camau pellach neu'n cadarnhau y gall y person yna ddychwelyd i hyfforddi neu gweithio tu ôl i'r bar/glanhau. NID YW HYN yn golygu fod y Clwb o reidrwydd yn credu yr honiadau, ond yn hytrach bydd y Clwb yn dilyn cyfarwyddiadau'r awdurdodau i ddiogelu plentyn rhag y posib o niwed pellach.

4.5 Os yw'r honiad yn ymwneud â'r SAP neu'r Cadeirydd, yna yn amlwg bydd y person yna yn cael ei hepgor o'r drefn adrodd ac os oes angen bydd angen dweud wrth aelod arall o'r Pwyllgor.

5-DOSBARTHU GWYBODAETH

Bydd y polisi hwn yn cael ei ddosbarthu i holl hyfforddwyr y Clwb ac yn cael ei osod ar hysbysfyrddau.

Bydd wedi ei osod ar wefan y Clwb – a bydd ffurflen gofrestru'r Clwb yn cynnwys y wybodaeth ynghylch ble mae'r polisi i'w ganfod.

Am y flwyddyn gyntaf byddwn yn rhoi taflen gyda manylion argaeledd y polisi i bob rhiant ar ddechrau tymor 07/08. O hynny ymlaen byddwn yn dosbarthu'r daflen wrth i chwarewyr gofrestru.

6-TREFN GWYNO

Os yw unrhyw blentyn, person ifanc, rhiant neu hyfforddwr am wneud cwyn am unrhyw berson neu ddigwyddiad yn ystod ymarfer neu gêm, dylid cysylltu â'r Swyddog Amddiffyn Plant.

Os nad yw hyn yn bosib neu'n ymarferol, neu os nad ydynt yn rhoi ateb boddhaol dylid wedyn cysylltu â Chadeirydd y Clwb.

Fel arall fe all bobl ifanc, rhieni, gwarchodwyr, hyfforddwyr neu aelodau hefyd ffonio llinell amddiffyn plant Undeb Rygbi Cymru **029 2082 2455** neu **07738 311 366 n**eu llinell gymorth yr NSPCC 0808 100 2524.

7-ADOLYGU POLISI

Bydd y polisi a'r ffordd mae o'n cael ei weithredu, yn cael ei adolygu gan y SAP a Pwyllgor y Clwb yn flynyddol.

Atodiad 1

COFNOD 1

I'w lenwi gan y Swyddog Amddiffyn Plant yn dilyn adroddiad o ddigwyddiad.

Dyddiad y digwyddiad honedig

Amser y digwyddiad honedig

Lleoliad y digwyddiad honedig

Pobl yn Gysylltiedig

Disgrifiad o'r digwyddiad honedig gan gynnwys dyfyniadau os yn berthnasol.

Enw'r person yn adrodd

Llofnod

Dyddiad

Enw'r SAP

Llofnod SAP

Dyddiad

I'w weithredu gan y SAP

1)
2)
3)
4)
5)

Atodiad 2

COFNOD 2

I'w lenwi gan y Cadeirydd wedi derbyn Cofnod 1

Dyddiad ac Amser derbyn Cofnod 1:

Derbynwyd y Cofnod gan:

Enw'r Person yn adrodd ar y digwyddiad

Llofnod

Dyddiad

Enw'r SAP

Llofnodwyd gan y SAP

Dyddiad

I'w weithredu gan y SAP

Cyngor a dderbynnwyd

Gan Bwy (Enw a Swydd)

Pryd (Amser a Dyddiad)

Wedi dweud wrth URC: I/N

Pryd/Pwy

Adborth i'r person adroddodd yn wreiddiol Cofnod 1

1)
2)
3)

Gweithredu Pellach

1)
2)
3)